

Cyngor Cymuned Llanelian (298)

Cofnodion cyfarfod Mai 8, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Helen Hughes, Hefina Williams, Glenys Jones, Ian Evans, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, John Griffiths, Thomas Jones, David Gerrard, Cyng. Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: Dafydd Griffiths, Cyng Richard Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Cafwyd gadarnhad gan Hefina Williams a Dafydd Griffiths nad oeddent yn bwriadu parhau yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd am dymor arall. Diolchodd Thomas Jones iddynt dau ar ran y Cyngor am eu gwaith da dros gyfnod hir. Roedd Cyng Aled Jones yn ategu'r diolch fel cynghorydd sirol yr ardal.

Ar ol trafodaeth hirfaith cytuno yn unfrydol byddai Hefina Williams yn Gadeirydd dros dro, ac y byddai Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu penodi yn y cyfarfod nesaf. Pwysleiswyd ei fod yn bwysig bod yr holl aelodau yn ymdrin a'u dyletswyddau ac yn rhannu cyfrifoldebau'r Cyngor. Cadarnhaodd Hefina Williams ei bod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar y mater i gadarnhau'r sefyllfa petai methu penodi Cadeirydd - yn gyfreithiol mae rhaid i'r Cyngor benodi Cadeirydd er mwyn gallu trin a thrafod busnes y Cyngor.

4 Cadarnhau Is-bwyllgorau

Cadarnhawyd aelodaeth yr is-bwyllgorau fel a ganlyn –

Llithfra – Dafydd Griffiths, John Griffiths, Thomas Jones (ac aelodau'r gymuned a CSYM)

Cae Chwarae – Carol Whitaker, Gordon Hayes, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Mynwent – Thomas Jones, Helen Hughes, John Griffiths, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Cyllid a Pholisi – Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Elfyn Hughes, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Cadarnhau Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allannol

5 Cadarnhawyd cynrychiolaeth ar bwyllgorau allannol fel a ganlyn –

Llywodraethwyr yr Ysgol – Glenys Jones

Pwyllgor y Neuadd – Helen Hughes

Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon – Dafydd Griffiths a John Griffiths

Wylfa (Magnox) – I'w gadarnhau

Wylfa (Horizon) – I'w gadarnhau

Un Llais Cymru – I'w gadarnhau

Fforwm Cynghorau Mon – I'w gadarnhau

6 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Carol Whitaker, eilio Ian Evans.

7 Materion yn Codi o'r Cofnodion

7.1 Arolwg Anghenion Tai

Cadarnhawyd bydd Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai CSYM yn mynychu cyfarfod mis Mehefin i gyflwyno ei hun a cheisio ateb rhai o gwestiynau'r aelodau.

Nid oes ymateb gan Grwp Cynefin hyd yma yn dilyn cais am ddiweddariad ynglŷn a'r trafodaethau yn ymwneud a thenantiaeth y tai yn natblygiad Dublin

7.2 Giatiau Mynwentydd

7.2.1 Llanelian - Daw cais cynllunio ar gyfer giat mynwent Eilian felly mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Nodwyd byddai cost y prosiect yn debygol o fod tua £9-10k. Cytuno cysylltu a'r Eglwys am gyfraniad tuag at giat newydd unwaith bydd caniatad cynllunio wedi ei gymeradwyo a phrisiau diweddar wedi eu derbyn gan gwmnïau sydd wedi eu cymradwyo gan CADW.

7.2.2 Bosra – Nid oes ymateb gan yr Henaduriaeth fyth. Nodwyd bod y giat mawr yn beryg i ddefnyddwyr, ac nad oedd posib defnyddio'r giat fochyn gan bod angen torri'r coed. Ar ol trafod yn ddwys cytuno byddai'r Cyngor yn rhoi clo ar y giat fawr ac yn gofyn i Richard Edwards dorri'r coed fel bod modd i ymwelwyr ddefnyddio'r giat fochyn. Bydd anfoneb am y gwaith i'w hanfon at y Henaduriaeth ynghyd a llythyr yn esbonio bod y mater wedi ei drafod ers misoedd bellach ac nad oedd ymateb gan yr Henaduriaeth. Yr unig opsiwn arall fyddai tynnu'r giatiau mawr yn gyfan gwbwl. Cytuno trafod eto mis nesaf gan obeithio byddai ymateb gan yr Henaduriaeth erbyn hynnu. Nodwyd bod angen diweddarau'r arwyddion ger y giat er mwyn nodi mai'r Henaduriaeth oedd berchen y fynwent ac yn gyfrifol am ei gynnal a chadw.

7.3 Materion Priffyrdd

Cafwyd wybod gan Cyng Aled Jones bod swyddogion CSYM wedi ymweld a'r safle ac yn ymdrin a'r mater yn ymwneud a choed ar ymyl y ffordd.

7.4 Y Bedol

Daw ebost gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi nad oedd ganddynt wybodaeth am y system garffosiaeth nyny pentref, ac mai cyfrifoldeb Dwr Cymru fyddai'r agwedd hynnu.

Cafwyd ebost gan Cadnant Planning yn cynnwys ymateb Dwr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad cyn cyflwyno. Cytuno trafod y cais mewn manylder pan fydd yn dod ger bron y Cyngor.

Cafwyd ymateb gab CSYM yn esbonio sut mae polisi TAI 15 yn gweithio'n ymarferol. Cytuno gofyn i Ned Michael esbonio'n bellach yn y cyfarfod nesaf

8 Caeau Chwarae

Nodwyd bod Playquest wedi cwblhau'r gwaith oedd ei angen i'r offer coed erbyn hyn. Cadarnhawyd bod llyfr cofnodion wedi ei dderbyn gan Gordon Hayes a Carol Whitaker i'w gwblhau yn dilyn pob ymweliad a'r caeau chwarae a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi archebu dau fwrdd picnic oedd yn addas ar gyfer pramiau a/neu cadeiriau olwyn, un ar gyfer pob cae chwarae; byddent yn cael eu gosod cyn gynted a phosib.

9 Llithrfa

Cafwyd wybod gan y clerc bod 16 goriad wedi'i gwerthu hyd yma. Bydd y postyn yn ei le o 15/5/2018 hyd ddiwedd mis Medi. Bydd y bwis cyflymder hefyd yn cael eu gosod yng ngheg y bae. Nodwyd ei bod wedi bod yn brysur iawn dros y penwythnos, a bod y toiledau hefyd wedi bod ar agor. Roedd llawer o gwynion fodd bynnag am jet-skis yn myndyn rhy gyflym yn y bae. Cytuno cysylltu a grwp jet-skis gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth, a hefyd cysylltu a Iwan Huws CSYM i nodi pryderon ar ddechrau'r tymor a gofyn am arwyddion newydd yn hyrwyddo'r rheolau. Byddai ymweld a'r safle gyda Mr Huws yn ddefnyddiol iddo gael gweld dros oi hun. John Griffiths i ffilmio'r traeth ar ddiwrnod prysur i ddangos y broblem. Gofynnwyd i'r clerc hefyd gysylltu a Geoff Price yr harbwrfeistr er cwrteisi.

10 Cynllunio

10.1 Ceisiadau – roedd tri cais i'w ystyried:

- Giat Mynwent Eilian (24C189C/LB) – dim yn gallu rhoi sylw (cais ar ran y Cyngor)
- Henblas, Llanelian (24C129G) – dim sylw
- Cae Gron, Llanelian (24C225E) – gwrthwynebu – hwn yw'r trydydd cais i ddod ger bron y Cyngor yn ddiweddar. Fel nodwyd ym mis Chwefror, mae dau annedd yma o fewn yr adeilad yn barod. Mae'r aelodau wedi gwrthwynebu cais I godi annedd arall yn yr ardd yn ddiweddar iawn am y byddai yn or-ddatblygiad o'r safle a bod

pryder am fynediad. Teimlai'r aelodau byddai caniatáu'r cais yma yn creu tri annedd o fewn yr un adeilad ac yn or-ddatblygiad o'r safle ac roedd pryderon eto am fynediad ar lon sydd wedi ei rhannu ag aneddau eraill

10.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn: Dim

11 Materion Ariannol

11.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£282.26 HMRC(PAYE)

£888.00 NBB (Meinciau caeau chwarae)

£286.07 Cyflog Clerc

£516.00 Playquest Adventure Play (Cae chwarae Lon Tyddyn Waen)

11.2 Ceisiadau am Arian

Cafwyd pedwar cais am arian. Cytuno na fyddai'r Cyngor yn cefnogi Bobath gan ei fod yn fudiad y tu allan i ddalgylch y Cyngor. Cytuno byddai ceisiadau Cymdeithas y Leinws a WI Llanelian yn cael eu clustnodi a'u trafod gydag arian Ty Moel Isaf.

Trafodwyd y pedwerydd cais, sef cais gan Gwenno Ellis Owen, merch lleol gweithgar iawn sydd yn mynd i Batagonia i wirfoddoli. Cytuno byddai'r Cyngor yn cyfrannu £100 tuag at gost yr ymweliad ac yn ei gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau unwaith bydd wedi dychwelyd i'r pentref.

11.3 Yswiriant

Mae dau pris wedi eu derbyn am yswiriant ar gyfer y flwyddyn nesaf, cytuno derbyn y pris isaf.

11.4 Archwiliad

Nid oes dyddiad wedi ei bennu ar gyfer yr archwiliad mewnol hyd yma.

12 Cronfa Ty Moel Isaf

Nid oedd ddiweddariad am dderbyn unrhyw arian ychwanegol yn dilyn gwerthu'r fflat. Cytuno peidio a thrafod ymhellach nes bydd yr holl arian wedi ei dderbyn.

13 Iechyd a Diogelwch - dim materion ychwanegol i'w ystyried.

14 Wylfa Newydd

Cafwyd wybod bod Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon wedi cwrdd a'r arbennigwyr Wood, a bod isbwyllgorau wedi trin a thrafod pryderon penodol. Mae cyfarfod gyda Gwen Parry Jones rheolwr newydd y safle wedi'i drefnu ar gyfer dechrau Mehefin. Gobeithio bydd mwy o wybodaeth i gael erbyn hynnu. Nodwyd siom nad oedd Horizon yn rhyddhau dogfennau i'w ystyried ond yn gofyn am farn y gymuned leol ar eu cynnwys.

15 Gohebiaeth

15.1 Panel Adolygiad Annibynnol – roedd gwahoddiad ir Cyngor gynnal sesiwn galw heibio i'r gymuned. Teimlwyd bod y gwahoddiad yn rhy fyr rybydd, a bod pobl y pentref yn adnabod y Cyngorwyr a'r clerac ac yn gwybod sut i gysylltu a ni. Cadarnhawyd bod manylion cyswllt ar y wefan ac yn yr hysbysfwrdd.

15.2 Gwefan – mae peth gwaith diweddar er mwyn cysymffurfio a'r polisi diogelu data newydd sydd yn dod i rym ddiwedd y mis. Rhoddwyd hawl i'r clerac i weithredu i drefnu bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosib. Bydd angen i'r Cyngor gael polisi diogelu data penodol. Cytuno gofyn i Un Llais Cymru am fodel i'w fabwysiadu.

16 Unrhyw Fater Arall

16.1 Baw Ci – nodwyd bod peth baw ci ym mhobman yn y pentref yn ddiweddar. Cyng Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol yn CSYM.

- 16.2** Llwybr ger y Bedol – mae'r llwybr dal angen ei grafu ac yn llithrig iawn pan yn wlyb.
- 16.3** Milwr Tawel – mae'r milwr tawel sydd i'w gosod ger y gofeb wedi cyrraedd erbyn hyn. Diolchwyd i Carol Whitaker a Gordon Hayes am eu gwaith gyda'r Clwb Ieuenctid.
- 16.4** Llwybr Arfordirol – cafwyd wybod bod pont rhwng Tros y Mynydd a Rhos y Mynach angen sylw ei fod wedi pydru ac yn llithrig. Y Clerc i gysylltu a'r swyddog perthnasol.

17 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 5 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.45. Diolchwyd i Hefina Williams am gymryd yr awenau dros dro.

Arwyddwyd
Hefina Williams
Cadeirydd

CET05/2018